Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Headlands

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at publications@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Headlands yn ysgol arbennig annibynnol wedi'i lleoli yn ardal breswyl Penarth, ym Mro Morgannwg. Mae'n rhan o'r elusen Gweithredu dros Blant. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl tymhorol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn addysgu 62 o ddisgyblion o gyfnod allweddol 2 i'r cyfnod ôl-16.

Daw ysgolion o awdurdodau Cymru yn bennaf, gydag ychydig ddisgyblion o awdurdodau yn Lloegr. Mae lleoedd preswyl tymhorol gan ddeunaw disgybl. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae gan 21 o ddisgyblion statws 'plentyn sy'n derbyn gofal'. Mae gan ddisgyblion amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys anhwylderau diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol
- Mae athrawon a staff cymorth yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl yn eithriadol o dda
- Gydag amser, mae disgyblion yn gwella'u hymddygiad yn dda
- Mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol pwysig, er enghraifft wrth groesawu ymwelwyr i'r ysgol
- Mae disgyblion yn cyflawni rolau cyfrifoldeb trwy'r cyngor ysgol a thrwy'r cynllun mentora cymheiriaid
- Mae gan yr ysgol berthynas effeithiol â'r awdurdod lleol a'r consortiwm, sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi priodol i staff
- At ei gilydd, mae adeiladau'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Nid yw defnyddio cymorth oedolion yn yr ystafell ddosbarth bob amser yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth
- Nid yw amgylchedd dysgu disgyblion cyfnod allweddol 2 o'r un safon â gweddill yr ysgol

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau bod cymorth oedolion yn yr ystafell ddosbarth yn hybu medrau annibyniaeth disgyblion

A2 Gwella'r amgylchedd dysgu yng nghyfnod allweddol 2

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Datblygu strategaeth gwrth-fwlio gydlynus ymhellach i fynd i'r afael ag amgyffredion lleiafrif o ddisgyblion nad yw staff bob amser yn ymyrryd yn ddigon cyflym pan fydd ymddygiad yn debygol o droi'n fwlio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau effeithiol i godi ymwybyddiaeth staff a disgyblion o fwlio.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r polisi gwrth-fwlio wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gweithdrefnau newydd. Mae rheolwyr wedi rhannu a thrafod y polisi gyda'r holl staff i sicrhau bod dull cyson ar draws yr ysgol. Mae gwrth-fwlio bellach yn eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob diwrnod hyfforddi staff.

Mae'r ysgol wedi datblygu ffurflen cofnodi bwlio. Mae hyn yn caniatáu i reolwyr gasglu data a nodi tueddiadau. Fodd bynnag, megis dechrau y mae dadansoddi'r data hwn.

Mae'r ysgol wedi gosod ffocws cryf ar helpu staff a disgyblion i adnabod arwyddion cynnar o ymddygiad a allai arwain at fwlio, er enghraifft pethau sy'n cael eu dweud ar y cae pêl-droed. Mae posteri ar draws yr ysgol yn helpu disgyblion i ennill dealltwriaeth glir o beth yw bwlio. Fel rhan o'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol, mae myfyrwyr prifysgol sy'n astudio seicoleg yn arwain sesiynau gwrth-fwlio rheolaidd yn ystod amseroedd tiwtorial.

Mae'r ysgol wedi penodi mentoriaid cymheiriaid ychwanegol ac wedi sefydlu ystafell 'galw heibio' sy'n cael ei rheoli gan y myfyrwyr seicoleg, y staff a'r mentoriaid cymheiriaid. Mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i ddisgyblion drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae'r ysgol wedi sefydlu 'criw gwrth-fwlio'. Mae'r disgyblion hyn yn cefnogi gwaith yr ysgol i godi ymwybyddiaeth o fwlio.

**Argymhelliad 2: Nodi addysgu rhagorol yn Headlands, ac mewn ysgolion eraill, a rhannu'r arfer hon gyda staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae rheolwyr wedi sefydlu systemau effeithiol er mwyn i staff rannu arfer dda yn yr ysgol. Trwy arsylwi gwersi'n ffurfiol, nodwyd enghreifftiau o addysgu da a rhagorol a gwahoddwyd staff i ffurfio grŵp 'Da i Ragorol'. Mae'r grŵp hwn wedi cyflawni gwaith gwerthfawr yn nodi nodweddion addysgu rhagorol a rhannu'r wybodaeth hon gyda gweddill y staff.

Mae'r ysgol wedi sefydlu 'trionglau addysgu', sy'n caniatáu i athrawon arsylwi eu gwersi ei gilydd a chael dealltwriaeth wella o addysgu da a rhagorol, trwy drafod cryfderau a meysydd i'w datblygu fel grŵp. Rhannant y wybodaeth hon gyda gweddill y staff yn ystod diwrnodau hyfforddi.

Mae'r ysgol wedi cynyddu cyfleoedd i staff arsylwi addysgu y tu allan i'r ysgol. Mae athrawon wedi cynnal ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol drwy'r 'Rhaglen Athro Rhagorol', ynghyd ag ymweliad ag uned cyfeirio disgyblion. Mae'r ymweliadau hyn wedi helpu staff yn Ysgol Headlands i wella'u harfer.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod disgyblion hŷn yn cael adborth ysgrifenedig manwl ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn. Mae enghreifftiau o farcio effeithiol i'w gweld ar draws pob cyfnod allweddol. Mae rheolwyr yn craffu ar lyfrau yn rheolaidd i sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol.

**Argymhelliad 4: Parhau i gryfhau cyfraniad y corff llywodraethol at y broses hunanarfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r pennaeth yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r corff llywodraethol, gan gynnwys y negeseuon allweddol o'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r rhain yn helpu llywodraethwyr i ddeall y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn dewis un flaenoriaeth y flwyddyn o gynllun gwella'r ysgol, ac yn ei defnyddio i fod yn ffocws ar gyfer ymweliadau â'r ysgol. Yn dilyn pob ymweliad, darparant adroddiad ysgrifenedig i'r uwch dîm arwain.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Headlands |
| **Rhif yr ysgol** | 6736025 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 04/02/2015 |
| **Perchennog** | Gweithredu dros Blant |
| **Staff** | 15 athro, 25 cynorthwyydd addysgu, gan gynnwys 5 cynorthwyydd addysgu lefel uwch |
| **Nifer y disgyblion** | 62 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd a darpariaeth breswyl am 38 wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol; anhwylderau'r sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 22/10/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 23/10/2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 23/10/2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Michelle Gosney | Arolygydd Tîm |